## Swydd Ddisgrifiad — Gwasanaeth Llesiant Staff: Cynghorydd Llesiant Staff yr Ysgol

**Adrodd wrth:** Gwasanaeth Llesiant Staff: Rheolwr Rhaglen
**Hyd y contract: Cytundeb cyfnod penodol tan 31 Mawrth 2025.**
Mae gan Education Support hanes da o allu ymestyn contractau tymor penodol ac wrth i'n gwaith barhau i ehangu ar draws y DU, byddwn yn mynd ati i archwilio ffyrdd o ddarparu cyfleoedd tymor hwy
**Oriau gwaith:** 37.5 yr wythnos heb gynnwys cinio (bydd rhan-amser, rhannu swydd a gweithio hyblyg yn cael ei ystyried)
**Cyflog:** £38,000

**Lleoliad:** Cartref (yng Nghymru) gyda theithio rhanbarthol a theithio i Lundain yn ddisgwyliedig.

### Cyflwyniad i Education Support

Education Support yw'r unig elusen yn y DU sy'n ymroddedig i wella iechyd a llesiant yr holl weithlu addysg. Rydym yn darparu rhaglenni a gwasanaethau sydd wedi'u cynllunio i wella iechyd meddwl a llesiant yr holl staff addysg, yn cefnogi sefydliadau i greu gweithleoedd sy'n iach yn feddyliol ac yn eirioli dros wella polisi ac ymarfer. Ar hyn o bryd rydym yn darparu ystod o raglenni a gwasanaethau gan gynnwys:

- Cefnogaeth i arweinwyr ysgol: goruchwyliaeth broffesiynol a gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i ysgolion sy'n ceisio creu diwylliannau iach yn feddyliol
- Ein llinell gymorth 24/7 am ddim a chyfrinachol
- Rhaglenni grantiau i'r rhai sy'n gweithio, neu wedi ymddeol, o'r sector addysg a allai fod yn ei chael hi'n anodd yn ariannol
- Ein Rhaglen Cymorth Gweithwyr gyfrinachol, 24/7
- Gweithdai ar lesiant a gwytnwch

Un o'n hamcanion yw cael ein cydnabod fel canolfan arloesol; treialu, gwerthuso a lledaenu dulliau newydd o gefnogi iechyd meddwl y gweithlu addysg. Mae'r gwaith rydym yn ei gyflawni yng Nghymru yn chwarae rhan allweddol wrth helpu i gyflawni'r amcan hwn.

### Diben y Swydd

Gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru, rydym yn darparu rhaglen gefnogaeth i staff addysg yng Nghymru. Bydd rôl Ymgynghorydd Llesiant Ysgolion yn rhoi cefnogaeth i ysgolion ar lefel ranbarthol ac yn rhan annatod o lwyddiant y rhaglenni.

Diben y rôl yw arwain ar ddarparu gwybodaeth ymarferol, cyngor ac arweiniad i ysgolion ar draws rhanbarth dewisol yng Nghymru gan roi'r gallu i'r rhai sy'n gyfrifol am lesiant staff weithredu. Bydd yr ymgynghorydd yn gweithio 1:1 gydag arweinwyr ysgolion, a'r rhai sy'n gyfrifol am lesiant staff, yn ogystal â darparu gweithdai rhanbarthol a lefel ysgol. Byddwch yn cefnogi Rheolwr Rhaglen Gwasanaeth Llesiant Ysgolion i gyflawni gweithgaredd ehangach y rhaglen, i gynyddu ymwybyddiaeth o Education Support a sicrhau bod canlyniadau'r rhaglen yn cael eu cyflawni.

## Dyletswyddau a Chyfrifoldebau

- Darparu gwybodaeth ymarferol, cyngor a chanllawiau i ysgolion ledled Cymru, ynghyd â thîm o ymgynghorwyr i wella llesiant staff.
- Gweithio'n uniongyrchol gydag arweinwyr ysgolion, a'r rhai sy'n gyfrifol am lesiant staff, i ddeall eu hanghenion a theilwra cefnogaeth i ymateb i'r anghenion hynny.
- Gweithio'n agos â rhanddeiliaid allweddol yn rhanbarthol i sicrhau cefnogaeth ar gyfer llesiant staff a chyfrannu at gyflwyno'r dull ysgol gyfan o lesiant emosiynol a meddyliol yn llwyddiannus.
- Cefnogi datblygu gwybodaeth, adnoddau ac offer newydd i wella'r gefnogaeth sy'n cael ei chynnig gan y Staff Gwasanaeth Llesiant.
- Datblygu, a darparu, gweithdai i ysgolion gan gynnwys gweithdai i'r holl staff a gweithdai yn benodol ar gyfer arweinwyr.
- Sefydlu dulliau o rannu arfer da rhwng ysgolion ac annog cydweithredu lle bo angen.
- Trefnu a hwyluso digwyddiadau rhwydweithio ar-lein chwarterol ar gyfer arweinwyr llesiant ysgolion.
- Gweithio gyda thîm cyfathrebu Education Support i gefnogi cyfathrebiadau parhaus a hyrwyddo'r gefnogaeth i ysgolion yng Nghymru.
- Gweithio gyda chydweithwyr i ddatblygu a chyflwyno cefnogaeth ychwanegol, fel sy'n ofynnol gan y prosiect hwn.
- Darparu gwybodaeth reolaidd am gynnydd, gan gefnogi Education Support i adrodd cynnydd i Lywodraeth Cymru.
- Mynychu cyfarfodydd un i un a thîm wyneb yn wyneb pan fo angen.
- Diweddaru ein cronfa ddata yn unol â chanllawiau i sicrhau bod holl wybodaeth yr ysgol yn gyfredol yn rheolaidd
- Mynychu digwyddiadau i hyrwyddo'r Gwasanaeth Llesiant Staff
- Cefnogaeth ar draws rhanbarthau yn ôl yr angen

Cyfrannu at waith sefydliadol ehangach yn ôl yr angen

Rhaid i'r dyletswyddau hyn gael eu cyflawni gan roi sylw dyledus i Bolisi Cyfle Cyfartal Education Support, gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch ac ymgymryd â dyletswyddau yn unol â chodau ymarfer yr Elusen a chodau ymarfer perthnasol eraill.

## Y Person

### Profiad, sgiliau a gwybodaeth

Profiad:

- O leiaf 1 blwyddyn o brofiad o wella iechyd meddwl a llesiant staff.

- Cyflwyno gweithdai neu gyflwyniadau i grwpiau.
- Datblygu arweiniad neu ysgrifennu adroddiadau.
- Rheoli perthnasoedd rhanddeiliaid a gwahanol safbwyntiau.
- Datblygu cynnwys newydd ar gyfer cynulleidfaoedd penodol.
- Cyd-gynhyrchu a gweithio gyda buddiolwyr i wella gwasanaethau.

Sgiliau:

- Sgiliau rhyngbersonol cryf, gyda'r gallu i adeiladu perthnasoedd parhaol yn gyflym.
- Sgiliau llafar ac ysgrifenedig o'r radd flaenaf.
- Sgiliau gwrando ardderchog
- Sgiliau cyflwyno rhagorol, gyda'r gallu i addasu cyflwyniadau i ddiwallu anghenion gwahanol gynulleidfaoedd.
- Y gallu i weithio'n effeithiol ar liwt eich hun ac fel rhan o dîm o gynghorwyr.
- Y gallu i gynnal cofnodion achos at ddibenion adrodd

Gwybodaeth:

- Gwybodaeth am iechyd meddwl yn y gweithle, gan gynnwys y mathau o ymyriadau, offer ac adnoddau y gall sefydliadau eu defnyddio i wella iechyd meddwl a llesiant staff.
- Dealltwriaeth o'r materion cyfredol sy'n effeithio ar iechyd meddwl a llesiant staff addysg yng Nghymru.
- Dealltwriaeth o'r system addysg yng Nghymru.

## Dymunol

- Sgiliau Cymraeg (llafar ac ysgrifenedig).
- Profiad o weithio'n uniongyrchol gydag ysgolion neu leoliadau addysg eraill.
- Profiad o ddefnyddio cronfeydd data i gofnodi ac adrodd gwybodaeth.